

Rhif: WG24170



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Treth Gwarediadau Tirlenwi

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2015



Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori a oedd yn ceisio barn am Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth.

Manylion cysylltu

Yr Is-adran Polisi a Deddfwriaeth Trethi
2il Lawr – Dwyrain
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: WelshTreasury@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru

Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	2
2. Cyfraddau'r dreth a gwarediadau trethadwy	5
3. Cydymffurfio a gorfodi	16
4. Gweinyddu	22
5. Lles y gymuned	28
6. Cwestiynau ychwanegol	32

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Atodiad B – Ymddiriedolaethau Natur Cymru – llythyr model

Atodiad C – Geirfa

1. Cyflwyniad

- 1.1** Mae ymgynghoriad y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn drydydd ymgynghoriad mewn cyfres gan Llywodraeth Cymru sy'n ceisio datblygu trefniadau treth datganoledig yng Nghymru. Dyluniwyd yr ymgynghoriad hwn er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ystyried yr opsiynau a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi (TGT), a fydd yn cymryd lle Treth Dirlenwi'r DU pan gaiff ei datganoli i Gymru yn Ebrill 2018.
- 1.2** Wrth baratoi ar gyfer datganoli trethi, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad eisoes ar drefniadau casglu a rheoli¹ ac wedi gosod ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ("Y Bil") fis Gorffennaf 2015.² Mae cysylltiad agos rhwng rhai o'r pynciau sydd wedi'u trafod yn yr ymgynghoriad blaenorol hwn a darpariaethau dilynol y Bil drafft a'r gwaith o ddatblygu TGT a'r Dreth Trafodiadau Tir arfaethedig. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu Treth Trafodiadau Tir (TTT), a fydd yn cymryd lle Treth Dir y Dreth Stamp, i ben ar 6 Mai 2015. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar 15 Medi 2015.³
- 1.3** Mewn datblygiadau eraill, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ym mis Mehefin 2015 y bydd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau casglu a rheoli ar gyfer y TGT. Bydd hefyd yn dirprwyo'r cydymffurfio a'r gorfodi i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ymgysylltu

- 1.4** Estynnwyd gwahoddiad i fynegi barn yn ystod cyfnod ymgynghori o 12 wythnos rhwng 24 Chwefror 2015 a 19 Mai 2015. Roedd ymatebwyr yn gallu ymateb ar bapur neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu Saesneg⁴. Cafodd yr ymgynghoriad lawer o gyhoeddusrwydd ar gyfryngau digidol, mewn cylchlythyrau ac mewn cyhoeddiadau eraill.
- 1.5** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd agored i'r rhanddeiliaid i gyd ac i'r cyhoedd, yng Nghaerdydd ar 23 Ebrill 2015 ac yn Llandudno ar 29 Ebrill 2015, yn ogystal â chyfarfod ar wahân gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghaerdydd ar 7 Mai 2015.

¹ <http://gov.wales/consultations/finance/devolved-taxes/?lang=cy>

² <http://gov.wales/consultations/finance/devolved-taxes/?lang=cy>

³ <http://gov.wales/consultations/finance/landfill-disposals-tax/?lang=cy>

⁴ <http://gov.wales/consultations/finance/landfill-disposals-tax/?skip=1&lang=cy>

Ymwelodd y swyddogion â Phrosiectau'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi a buont mewn cyfarfod Panel gan Gorff Amgylcheddol Dosbarthol.

- 1.6 Hefyd mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â nifer o randdeiliaid mewn cyfarfodydd o Grŵp Cynghori ar Dreth y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a'r Grŵp o Arbenigwyr Technegol ar TGT. Hefyd gydag arbenigwyr treth yn ystod y broses ymgynghori a thrwy gydol y gwaith o ddatblygu'r polisi.

Cynigion

- 1.7 Roedd yr ymgynghoriad wedi edrych ar nifer o gynigion a oedd yn ymwneud â datganoli'r Dreth Dirlenwi, gan gynnwys cyfraddau'r dreth a gwarediadau trethadwy, cydymffurfio a gorfodi, gweinyddu a lles y gymuned, sydd wedi'u disgrifio yn y crynodeb sy'n dilyn.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 1.8 Roedd diddordeb da yn gyffredinol yn yr ymgynghoriad. Edrychodd cyfanswm o 2,040 ar wefan yr ymgynghoriad a chafodd y ddogfen ymgynghorol ei lawrlwytho 269 o weithiau.
- 1.9 Cafwyd cyfanswm o 279 o ymatebion i'r ymgynghoriad oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid. Cyflwynwyd ymatebion gan unigolion a gwahanol sefydliadau sy'n cynrychioli gwahanol sectorau ym mhob rhan o Gymru a'r DU.
- 1.10 Ymysg yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cafodd Llywodraeth Cymru 138 o llythyrau oddi wrth aelodau Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn cefnogi dyrannu cyfran o refeniw TGT i wella lles cymunedau. Mae copi o'r llythyr yn Atodiad B.
- 1.11 Gwahoddwyd yr holl ymatebwyr i wneud cais am aros yn ddienw, a phenderfynodd 12 o ymatebwyr gymryd yr opsiwn hwn ac felly mae eu hunaniaeth yn ddienw drwy'r ddogfen hon. Nid yw'r dyfyniadau sydd wedi'u defnyddio wedi cael eu priodoli i ymatebwyr unigol, at bwrpas crynhoi, ond maent wedi cael eu priodoli i'w categori ymateb.
- 1.12 Mae Tabl 1 yn dangos nifer yr ymatebion yn ôl categori'r ymatebydd. Mae rhagor o fanylion am ymatebwyr yn Atodiad A ac mae copïau o ymatebion ar gael mewn Mynegai a gyhoeddir ar wahân ochr yn ochr â'r ddogfen gryno hon.
- 1.13 Mae natur amrywiol yr ymatebwyr yn cyflwyno cyd-destun pwysig ar gyfer ystyried y problemau a godwyd yn eu hymatebion a rhaid bod yn ofalus wrth

Treth Gwarediadau Tirlenwi – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Iunio casgliadau sy'n seiliedig ar nifer yr ymatebion sy'n lleisio barn debyg yn unig.

Tabl 1: Dadansoddi'r ymatebion yn ôl y Categoriâu Ymateb

Categori'r ymatebydd	Nifer	%
Busnesau	17	6
Sefydliadau Amgylcheddol	4	1
Unigolion	68	24
Gweithwyr Proffesiynol ym Maes y Gyfraith, Treth a Chyfrifyddiaeth	4	1
Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref	8	3
Pleidiau Gwleidyddol	1	1
Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol	9	3
Cyrff Cyhoeddus	1	1
Y Trydydd Sector	29	10
Llythyrau Ymddiriedolaethau Natur Cymru	138	49
Cyfanswm	279	100%

*Mae'r canrannau wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf

2. Cyfraddau'r Dreth a Gwarediadau Trethadwy

Cyflwyniad

- 2.1 Roedd y bennod hon o'r ddogfen ymgynghori'n ymdrin â gwaredu deunydd gan gynnwys cyfraddau'r dreth y dylid eu cymhwyso. Yn yr adran sy'n dilyn, ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau sy'n ymwneud â chymhwyso cyfraddau treth yng Nghymru, y deunydd trethadwy, yr ardal lle bydd gwaredu trethadwy'n digwydd, credyd ar gyfer symud gwastraff oddi ar safle tirlenwi, a'r eithriadau a gostyngiadau a ddylai fod yn gymwys.

Cwestiwn 1: Pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cadw'n gyson â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban o ran cyfraddau'r Dreth Dirlenwi a pham?

- 2.2 O'r 51 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cadw'n gyson â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. At hynny, roedd nifer bach o'r ymatebion un ai'n nodi nad yw'n bwysig neu'n darparu sylwadau eraill.
- 2.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a nododd ei bod yn bwysig cadw'n gyson wedi cyfeirio at yr angen i osgoi "waste tourism". Er enghraifft, dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth mai'r effaith o gadw'n gyson fydd lleihau'r perygl o gludo gwastraff ar draws ffiniau. Ymatebodd un busnes drwy ddweud y bydd cysondeb â'r DU yn rhoi i fusnesau "optimal business planning and financial provision", gan awgrymu ei bod yn bwysig sicrhau eglurder i fusnesau yng Nghymru o'r dechrau. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth "Introducing rates that differ from England (in particular) would serve to hinder administration and management of the tax by UK operators and in doing so increase the risk of non-compliance".
- 2.4 O'r ychydig o ymatebwyr hynny nad oeddent yn credu bod cysondeb yn bwysig, dywedodd un busnes na ddylai Cymru adael i weddill y DU ei hatal rhag datblygu system well. Hefyd, roedd un unigolyn yn cytuno gan ddweud bod angen pennu "priorities of Wales" yn gyntaf, cyn i Lywodraeth Cymru ystyried cadw'n gyson â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

Cwestiwn 2: A yw'r cyfraddau treth safonol ac is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.2) wedi'u gosod ar lefel briodol i Gymru? Esboniwch eich ymateb.

- 2.5** O'r 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, nododd ychydig mwy na hanner yr ymatebwyr fod y cyfraddau treth safonol ac is presennol wedi'u gosod ar lefel briodol i Gymru. Roedd llai o ymatebwyr wedi dweud y dylid newid neu addasu'r cyfraddau treth safonol a/neu is presennol. Ar ben hynny, roedd nifer bach o ymatebwyr wedi awgrymu trefniadau eraill.
- 2.6** O'r ymatebwyr hynny a nododd fod y cyfraddau treth safonol ac is presennol yn addas i Gymru, ailadroddodd nifer eu pryderon ynghylch twristiaeth gwastraff os byddai cyfraddau gwahanol i Loegr. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod y gyfradd dreth safonol yn benodol wedi llwyddo i hybu buddsoddiad mewn technolegau amgen a gwyro gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi. Wrth ystyried bod Lloegr a'r Alban wedi gosod eu cyfraddau yn unol â chwyddiant (RPI⁵) yna nid oedd angen rhagor o anogaeth. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth nad oedd yn ymddangos fod "the nature of the waste industry in Wales or the nature of waste itself is significantly different from that in either England or Scotland such that it demands different Landfill Disposals Tax (LDT) rates – for the foreseeable future".
- 2.7** O'r ychydig ymatebwyr a ddywedodd y dylid newid neu addasu'r cyfraddau treth safonol a/neu is presennol, awgrymodd y mwyafrif ohonynt y dylid cynyddu'r gyfradd dreth is. Er enghraifft, nododd un busnes y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried cynyddu'r gyfradd is, "to provide extra incentive to promote further recycling". Yn ogystal â'r sylw hwn, dywedodd corff cyhoeddus hefyd nad yw'r gyfradd is bresennol yn rhoi "enough of an incentive to effectively drive recovery and corresponding diversion from landfill of this waste stream". Dywedodd sawl ymatebydd nad oedd y gyfradd is wedi cyd-fynd â chwyddiant. Fodd bynnag, rhybuddiodd un awdurdod lleol y gallai cynyddu'r gyfradd is gael effaith niweidiol ar argaeledd deunydd cyfradd is a ddefnyddir ar gyfer datblygiad parhaus y safleoedd tirlenwi e.e. goruchwyliaeth ddyddiol.
- 2.8** Cafwyd sylwadau gan nifer bach o ymatebwyr am bosibilrwydd cyflwyno cyfraddau treth newydd neu amgen, ar ben y cyfraddau safonol ac is presennol. Un awgrym cyffredin oedd cyflwyno cyfradd ganol, ac awgrymodd

⁵ Mynegai Prisiau Manwerthu

sawl ymatebydd y gallai fod yn fanteisiol cael cyfradd ganol ar gyfer gwastraff adeiladu er mwyn annog gwahanu'r deunyddiau.

- 2.9 Yn olaf, cafwyd un sylw ychwanegol gan weithiwr proffesiynol ym maes treth a oedd yn cyfeirio at “widening differential” rhwng y cyfraddau treth safonol ac is, sydd wedi gwneud y posibilrwydd o droseddu oherwydd camddosbarthu rhwng cyfraddau'n fwy tebygol.

Cwestiwn 3: A oes unrhyw werth mewn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwahanol gyfradd o dreth is a pham?

- 2.10 O'r 36 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y byddai'n fuddiol rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru osod gwahanol gyfraddau o dreth is.
- 2.11 O'r rheini a nododd fod mantais mewn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru osod gwahanol gyfraddau o dreth is, dywedodd un corff proffesiynol y byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddiogelu rhag unrhyw newidiadau sydyn yn y cyfraddau is a wneir gan Lywodraeth y DU a/neu Lywodraeth yr Alban, tra dywedodd un busnes y bydd hyn yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru ymateb i “economic changes, social circumstances, and/or environmental developments”. Awgrymodd ymatebwyr y gallai hyn fod yn werthfawr os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno ysgogi mwy o newid mewn ymddygiad er mwyn gwireddu'r nodau yn ei pholisi *Tuag at Ddyfodol Diwasttraff*⁶. Er enghraifft, dywedodd un busnes y byddai gosod cyfradd is wahanol yn gallu ysgogi “innovation in waste treatment techniques”.
- 2.12 Roedd nifer bach o ymatebwyr nad oeddent yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael gosod cyfraddau gwahanol o dreth is, gan bwysleisio yn lle hynny ei bod yn bwysicach cadw'n gyson â Lloegr a'r Alban.

Cwestiwn 4: A oes unrhyw newidiadau i restr y deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is y dylid eu hystyried, ac ar ba sail?

⁶ http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=cy

- 2.13** O'r 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd ychydig mwy na hanner yr ymatebwyr na ddylid ystyried newidiadau yn rhestr y deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is. Yn y rhain, un thema a gododd yn aml oedd bod cysondeb â'r DU yn bwysig, er mwyn peidio ag ysgogi "waste tourism". Dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y byddai unrhyw "divergence from the existing UK and Scottish tax rates" yn gallu effeithio ar "cross border transportation of waste", ac y byddai angen ei ystyried yn ofalus cyn gwneud unrhyw newidiadau. Yn ogystal â hyn, nododd un corff proffesiynol fod y rhestr bresennol yn "established and generally understood", ac ychwanegodd y byddai newidiadau'n creu "unnecessary uncertainty", gan awgrymu y byddai parhau â'r rhestr bresennol yn caniatáu trosglwyddo'r dreth yn ddidrafferth.
- 2.14** Un awgrym a gynigiwyd gan nifer bach o ymatebwyr oedd y dylid cysoni polisi ar dreth yn fwy agos â gofynion deddfwriaeth amgylcheddol. Er enghraifft, dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y byddai symleiddio o'r fath yn golygu bod unrhyw ffrwd wastraff sy'n bodloni'r gofynion amgylcheddol am ei chategoreiddio'n wastraff anadweithiol, yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is.
- 2.15** Cafodd amrywiaeth o bwyntiau eraill eu gwneud, gan gynnwys:
- dylai'r rhestr o ddeunyddiau cymwys gael ei hadolygu'n rheolaidd;
 - bod angen geirio'r rhestr yn fwy eglur;
 - dylid ystyried eithrio rhai deunyddiau, fel deunydd sy'n cynnwys clymog Japan, o'r gyfradd is; ac,
 - ystyried ehangu'r rhestr i gynnwys deunyddiau ychwanegol, fel asbestos asiedig.

Cwestiwn 5: Pa mor ymarferol fyddai cyflwyno trothwy i ddiffinio 'swm bychan' o wastraff anghymwys mewn llwyth o ddeunydd cymwys?

- 2.16** O'r 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y farn yn rhanedig. Roedd tua hanner yr ymatebwyr wedi codi pryderon ynghylch goblygiadau ymarferol cyflwyno trothwy. Roeddent yn teimlo y byddai'n anodd gwerthuso a mesur ac felly byddai'n anodd ei weinyddu a'i fonitro'n effeithiol. Yn ogystal â hyn, roedd sawl ymatebydd, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ei ymateb, yn cynghori yn erbyn cyflwyno trothwy a diffiniad caeth, gan ddweud mai dim ond am resymau "digwyddiadol", fel damwain, y dylai gwastraff anghymwys fod yn bresennol. Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai Llywodraeth Cymru, wrth gyflwyno trothwy, yn cymhell rhai rhannau o'r diwydiant i ddefnyddio dulliau llai

effeithlon o wahanu gwastraff gyda rhai gweithredwyr yn cymysgu gwastraff yn fwriadol hyd at y trothwy. Fel opsiwn yn lle trothwy, cynigiodd llawer o'r ymatebwyr hyn ganllawiau ymarferol gwell o swm 'bychan' i helpu gweithredwyr safleoedd tirlenwi gyda'u hasesiad.

- 2.17** Roedd ychydig mwy nag un rhan o dair o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn credu y byddai'n synhwyrol cyflwyno trothwy er mwyn rhoi mwy o eglurhad i'r diwydiant ynghylch gwastraff anghymwys mewn llwythi o ddeunydd cymwys. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y byddai hyn yn rhoi sicrwydd i weithredwyr safleoedd tirlenwi, ond aeth ymlaen i ddweud bod hyn yn dibynnu ar gael "comprehensive guidance on the application of the threshold". Nododd gweithiwr treth proffesiynol arall y byddai gorfodi trothwy'n creu "even playing field across the industry".

Cwestiwn 6: A fydddech o blaid cyflwyno prawf Colli wrth Danio (LoI) pan gaiff y Dreth Dirlenwi ei datganoli? Esboniwch eich rhesymau.

- 2.18** O'r 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid cyflwyno prawf Colli wrth Danio yng Nghymru gyda nifer o'r ymatebwyr yn gefnogol i fwriad Llywodraeth Cymru i fonitro canlyniad dulliau gweithredu Llywodraethau'r Alban a'r DU. Dim ond nifer bach oedd yn gwrthwynebu cyflwyno prawf Colli wrth Danio yng Nghymru.
- 2.19** O blith y rhai a oedd o blaid prawf Colli wrth Danio yng Nghymru, roedd un thema a gododd yn aml yn ymwneud â'r pwysigrwydd o gadw "cross-border consistency", er mwyn osgoi "waste tourism". Er enghraifft, dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y byddai cysondeb â'r DU yn hwyluso cydymffurfio gan fusnesau sy'n gweithredu mewn mwy nag un rhan o'r DU, ac yn atal problemau rhag codi o ganlyniad i "cross border transportation of waste".
- 2.20** Yn ogystal â hyn, roedd un corff proffesiynol yn cefnogi'r prawf Colli wrth Danio yng Nghymru, gan fynnu bod profion Colli wrth Danio yn brawf gwrthrychol a oedd yn sicrhau cysondeb ar gyfer rheoleiddwyr a gweithredwyr safleoedd tirlenwi wrth asesu cynnwys gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Daeth i'r casgliad y byddai'r dull hwn o weithredu'n creu "level playing field and reduce misclassification [of waste]". Awgrymodd un unigolyn y gellid ymestyn y prawf Colli wrth Danio i ffrydiau gwastraff eraill fel creigiau a phriddoedd. Fodd

bynag, rhybuddiodd yr ymatebwyr a oedd o blaid prawf Colli wrth Danio yng Nghymru ynghylch yr angen am ddull cymesur o'i ddefnyddio.

- 2.21** Roedd lleiafrif bach yn gwrthwynebu cyflwyno prawf Colli wrth Danio yng Nghymru. Mynnai un ymatebydd y dylai'r broses wastraff fod mor syml â phosibl, ac aeth ymlaen i ddweud y byddai'r prawf hwn yn creu "complexity" a "delay[s]".

Cwestiwn 7: A oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol ar gyfer diffinio'r ardal lle y bydd gwaredu trethadwy'n digwydd, ac os felly, sut y gellid datrys y rhain?

- 2.22** Cafwyd 21 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, nododd tua hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn gwybod am unrhyw broblemau a oedd ynghlwm wrth y trefniadau presennol ar gyfer diffinio'r ardal lle mae gwaredu trethadwy'n digwydd. Dywedodd un gweithiwr treth proffesiynol fod yr ardal waredu yn "eithaf clir" a bod "ardaloedd gwybodaeth a pharthau di-dreth yn gweithio'n effeithiol i reoli 'gwaredu dros dro' anhrethadwy ar wastraff ar y safle tirlenwi". Dywedodd un busnes fod cael "ardal wybodaeth" yn cymell gweithredwyr safleoedd tirlenwi i ailgylchu ac, mewn egwyddor, bod hwn yn "syniad da ac yn gweithio".
- 2.23** Credai nifer o ymatebwyr fod problemau ynglŷn â'r trefniadau presennol mewn perthynas â'r ardal lle mae gwaredu trethadwy'n digwydd. Er enghraifft, dylid cael gwell cysondeb rhwng y ddeddfwriaeth ar dreth a thrwyddedu amgylcheddol. Hefyd, dywedodd un corff proffesiynol y byddai alinio cofnodion treth â thrwyddedau amgylcheddol yn cefnogi cydymffurfio drwy roi mecanwaith archwilio effeithiol.
- 2.24** At hynny, nododd un awdurdod lleol fod anawsterau'n codi wrth wahaniaethu rhwng gweithgareddau trethadwy ac anhrethadwy ar safleoedd. Er mwyn delio â'r mater hwn, dywedodd yr ymatebydd y dylai fod yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddynodi mwy nag un ardal wybodaeth gan y byddai hyn o gymorth wrth benderfynu beth oedd yn drethadwy ar safle tirlenwi. Dywedodd awdurdod lleol arall na ddylid trethu deunyddiau sy'n cael eu defnyddio i gynnal ffyrdd cludo neu fesurau amgylcheddol y tu allan i'r gell tirlenwi weithredol, gan nad oedd y deunyddiau hyn yn cael eu gwaredu.

- 2.25 Yn ei ymateb argymhellodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai'r ardal lle bydd gwaredu trethadwy'n digwydd gyd-fynd â ffin y safle a nodir yn nhrwydded amgylcheddol cyfleusterau tirlenwi a chynllun rheoli'r gweithredwr. Roedd hefyd yn argymhell eu bod yn cadw cofnod cywir o'r bwriad a defnydd olaf y gwastraff sy'n dod i'r ardal gwaredu.
- 2.26 Dywedodd nifer bach o ymatebwyr y byddai angen ystyried dadansoddiad pellach o'r pwnc hwn cyn y gellid penderfynu. Nododd un corff proffesiynol y dylid cynnal astudiaeth lawn o effeithiau unrhyw newid yn y diffiniad o'r ardal lle bydd gwaredu trethadwy'n digwydd cyn ei gyflwyno. Hefyd dywedodd nifer o'r ymatebwyr y byddai'n rhaid edrych yn llawn ar oblygiadau ymarferol unrhyw newidiadau cyn gwneud penderfyniad, yn enwedig mewn perthynas â gweithrediadau dyddiol, rheoli cofnodion a systemau TG.

Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, a oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol sy'n rhoi credyd am symud deunydd yn barhaol o safle tirlenwi, ac os felly, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?

- 2.27 O'r 21 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd tua hanner wedi nodi bod problemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol. Yn y rhain, roedd un thema a gododd yn aml yn ymwneud â natur gyfyngol y telerau y gall gweithredwr wneud cais am gredyd o danynt.
- 2.28 Er enghraifft, nododd un busnes nad oes modd gwybod fel arfer, ar adeg tirlenwi, os a pha bryd y gellid adennill deunydd, ac awgrymodd nad yw'r gofyniad hwn yn cymell gweithredwyr safleoedd tirlenwi i adennill neu ailddefnyddio gwastraff. Cytunai un gweithiwr proffesiynol ym maes treth â'r farn uchod, gan ddweud y gellid cael "requirement to notify the tax authorities when material is intended to be removed for recycling, recovery or treatment" yn lle'r gofyniad presennol i hysbysu'r awdurdod treth am y bwriad i symud deunydd. Dywedodd yr ymatebydd hwn y gellid un ai ymestyn neu ddileu'r terfyn amser, sydd hefyd yn cael ei gymhwyso, er mwyn gwella'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi credyd.
- 2.29 Dywedodd nifer bach o ymatebwyr nad oeddent yn credu bod unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol sy'n rhoi credyd am symud deunydd o safle tirlenwi yn barhaol, a dywedodd un busnes nad oedd unrhyw broblemau ynglŷn â'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi credyd. Yn ogystal â hyn, nododd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth fod y system gredyd bresennol yn gweithio'n dda. At hynny, dywedodd un gweithiwr treth

proffesiynol ei bod yn bosibl, er nad oes “major issues” ynglŷn â'r trefniadau presennol, y bydd “landfill mining” yn bwysicach yn y dyfodol, gan awgrymu y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried y rhagolygon am adennill deunydd o safleoedd tirlenwi yn y dyfodol.

Cwestiwn 9: Beth fyddai goblygiadau ymarferol deddfu ar y sail bod yr holl ddeunydd sy'n mynd i safle tirlenwi (ac eithrio'r deunydd hwnnw sydd wedi'i eithrio'n benodol) yn gymwys i'w drethu?

2.30 O'r 27 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd mymryn dros hanner yn teimlo bod y dull hwn o weithredu'n amhriodol ac wedi mynegi pryder am ei weithredu'n ymarferol. Dywedodd un corff proffesiynol y byddai deddfwriaeth glir yn osgoi mynd i gyfraith ac nad oedd yn “addas yn ymarferol i drethu pob deunydd sy'n cyrraedd safle gwastraff.

2.31 Dywedodd nifer o'r ymatebwyr mai'r cyfan fyddai hyn yn ei wneud fyddai symud y drafodaeth ac agor rownd newydd o heriau cyfreithiol a materion gwybodaeth yn seiliedig ar yr eithriadau. Hefyd. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai'r dull hwn o weithredu'n arwain at oblygiadau negyddol i'r diwydiant.

2.32 Credai tua un rhan o dair o ymatebwyr y byddai goblygiadau cadarnhaol yn y cynnig hwn. O'r rhain, un thema gyson oedd y byddai diwygiad o'r fath yn gallu cyflwyno elfen o sicrwydd i'r dreth, a nododd un busnes y byddai hyn yn debygol o ddatrys problemau sy'n codi ar hyn o bryd wrth ddehongli'r ddeddfwriaeth. Roedd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth hefyd yn cytuno gan ddweud y byddai hyn yn gallu dileu llawer o'r ansicrwydd presennol. Aeth ymlaen i ddweud y byddai hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru “align the exemptions with the activities that are necessary for environmental protection and safe management” ar y safle tirlenwi, fel y mae'r rheoleiddiwr amgylcheddol wedi argymhell.

Cwestiwn 10: Pa weithgareddau y byddech yn disgwyl iddynt gael eu heithrio (peidio â chael eu trethu) a pham?

2.33 Yn y 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, cyfeiriodd nifer bach o ymatebwyr at bwysigrwydd cadw'n gyson â gweddill y DU ynghylch eithriadau gwastraff. Er enghraifft, nododd un busnes y byddai hyn yn osgoi posibilrwydd cael “waste

tourism”, a dywedodd un corff proffesiynol y byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru sicrhau cysondeb â Lloegr oherwydd yr achosion cyfreithiol ynghylch eithriadau sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd.

- 2.34 Roedd nifer bach o ymatebwyr wedi rhoi awgrymiadau ar gyfer eithriadau newydd: nododd un corff proffesiynol fod deunydd peirianeg o'r fath, “clay, stone, pumps, pipework” ac yn y blaen, yn hanfodol ar gyfer rhedeg y cyfleuster ac nad ydynt yn “waste to be disposed of”. Cytunai un busnes hefyd gan ddweud bod “engineering activities” yn gysylltiedig â'r “containment system” ac y dylid eu heithrio. Y gweithgareddau eraill yr awgrymwyd eu heithrio oedd capio a gorchuddio deunyddiau.

Cwestiwn 11: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut y gallem wneud y gweithgareddau trethadwy a'r rhai anhrethadwy ar safle tirlenwi'n fwy clir a beth fyddai goblygiadau ymarferol y rhain?

- 2.35 O'r 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, un thema gyson yr oedd nifer o ymatebwyr wedi cyfeirio ati oedd yr angen am ganllawiau clir a chryno ac roedd rhai ymatebwyr hefyd yn rhoi pwys ar gadw cofnodion yn dda ac arolygu rheolaidd. Dywedodd un awdurdod lleol y byddai darparu “clear guidance documentation” i weithredwyr safleoedd tirlenwi'n helpu i egluro beth yw'r gweithgareddau trethadwy ac anhrethadwy ar y safle. At hynny, awgrymodd CNC y dylai fod gan bob gweithredwr safle tirlenwi “site working plan” yn barod a fyddai'n cynnwys gwybodaeth am y gwahanol weithgareddau a gyflawnir.
- 2.36 Fel arall, awgrymodd nifer o ymatebwyr bod lle i asio'n well â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol a'r trwyddedau amgylcheddol. Cyngorodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfraith achosion wrth ddatblygu ei dull o weithredu. Cyfeiriodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth at yr anawsterau sydd ynglŷn â'r agwedd o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â 'bwriad' gan nodi “it is not...desirable to try and make this determination by reference to the intention of the original waste producer or of the site operator”.
- 2.37 Oherwydd natur benagored y cwestiwn hwn, cafwyd atebion eraill o bob math. Rhai o'r sylwadau eraill a gafwyd oedd:
- y byddai “clearly defined segregated areas” yn helpu i egluro beth oedd y gweithgareddau ar y safle;
 - na ddylid cael “storage on a landfill”, fel y byddai gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n gorfod defnyddio “information zones” i helpu i egluro beth oedd y gweithgareddau ar y safle;

- y gellid gwella gofynion presennol CThEM drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi gadw cofnod o'r defnydd terfynol arfaethedig o wastraff;
- y byddai'n fuddiol cael "operational definition", gan gyfeirio at y ffaith bod CThEM wedi gorfod gwahaniaethu rhwng deunyddiau ar safleoedd.

Cwestiwn 12: A ydych yn meddwl y dylid dileu neu addasu unrhyw rai o'r eithriadau presennol? Esboniwch eich ymateb.

2.38 O'r 27 o ymatebion i gwestiwn 12, nid oedd y rhan fwyaf yn credu y dylid gwneud unrhyw newidiadau yn y rhestr bresennol o eithriadau. Er enghraifft, dywedodd un busnes na ddylid cael unrhyw "modifications" i'r eithriadau presennol "at this stage"; a nododd un corff proffesiynol y dylid cadw'r rhestr bresennol "to ensure consistency with England" er mwyn osgoi twristiaeth gwastraff". Amlinellodd nifer o ymatebwyr fanteision yr eithriad chwarelu i gymunedau.

2.39 Yn ogystal â hyn, cyfeiriodd nifer bach o ymatebwyr at yr angen am eglurhad pellach ynghylch y rhestr eithriadau bresennol, a dywedodd un corff proffesiynol fod angen mwy o eglurhad ar rai meysydd fel "quarrying" a "mineral extraction" fel na fydd ansicrwydd, drwy eu diffinio'n glir.

2.40 Dywedodd un corff proffesiynol y dylid darparu rhesymeg o ran cadw unrhyw rai o'r eithriadau presennol yn seiliedig ar yr effaith ar yr amgylchedd a'r busnes. Aeth yr ymatebydd yma ymlaen i ychwanegu bod angen cyfarwyddyd cadarn er mwyn lleihau cam-drin a defnydd anghyson o eithriadau.

Cwestiwn 13: A oes dadl o blaid dileu neu addasu'r gostyngiad ar gyfer dŵr? Esboniwch eich ymateb.

2.41 O'r 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y farn yn rhanedig. Nid oedd ychydig mwy na hanner yr ymatebwyr yn credu nad oedd dadl ar hyn o bryd o blaid dileu neu addasu'r gostyngiad ar gyfer dŵr. Er enghraifft, dywedodd un busnes nad oes dadl o blaid "removing or modifying the water discount relief from the weighing process". Aeth yr ymatebydd hwn ymlaen i ddweud bod cludo deunyddiau sych, fel lludw, yn gallu creu "environmental nuisance", ac felly bod angen ychwanegu dŵr er mwyn lliniaru'r problemau sy'n gysylltiedig â

gwastraff. Roedd un corff proffesiynol hefyd yn cytuno gan ddweud, er mai bach fyddai nifer y busnesau y byddai unrhyw newid neu addasiad yn effeithio arnynt, y byddai'r goblygiadau ariannol yn difrifol, a rhybuddiodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn yn ofalus.

- 2.42** Fodd bynnag, roedd yr holl ymatebwyr eraill yn credu bod dadl o blaid dileu neu addasu'r gostyngiad ar gyfer dŵr. Er enghraifft, nododd un awdurdod lleol fod mecanwaith y gostyngiad ar gyfer dŵr yn "complex", a bod dŵr a ychwanegwyd at wastraff yn ddeunydd a waredir, er hynny, ac felly y dylid dileu'r gostyngiad. At hynny, dywedodd un corff proffesiynol "there is a case for reviewing the current water discount relief system", gan nodi y dylid cymeradwyo unrhyw gamau i symleiddio'r broses a chyfyngu camddefnydd o'r system. Yn ogystal â hyn, dywedodd CNC y byddai'n cynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth ystyried addasu'r gostyngiad ar gyfer dŵr, gan hyrwyddo ymchwiliad trwyadl a dadansoddiad cost a budd.

Cwestiwn 14: A ydych yn meddwl bod lle i gyflwyno eithriadau neu ostyngiadau newydd, ac os felly, beth ddylai'r rhain fod a pham?

- 2.43** O'r 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr nad oedd lle i gyflwyno eithriadau neu ostyngiadau newydd. Eglurodd un awdurdod lleol fod "existing UK Landfill Tax provisions are well understood", a chynghorodd Lywodraeth Cymru i beidio â cheisio "significant changes", gan awgrymu y dylai cysondeb â'r DU fod yn flaenoriaeth. Er enghraifft, dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y byddai unrhyw eithriadau neu ostyngiadau newydd yn creu "risk of compliance costs and waste tourism".
- 2.44** Cafwyd awgrymiadau am newidiadau ar gyfer eithriadau neu ostyngiadau newydd gan nifer o ymatebwyr. Rhai o'r sylwadau a gafwyd oedd:
- y dylid cynnwys eithriad â therfyn amser ar gyfer "fly ash and bottom ash from innovative heat from waste or biomass power generation";
 - y dylid cymhwyso cyfradd dreth is at ddeunydd lapio a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth gan y bydd hyn yn gymhelliad i "reduce any impact on the rural environment";
 - bod mantais bosibl mewn cynnwys "stable non reactive (SNR) wastes, such as asbestos and gypsum"; ac
 - y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gostyngiad ar gyfer "local authority collected household waste", gan awgrymu y byddai newid o'r fath yn rhyddhau "valuable funds to be re-assigned to increasing recycling collections services and communications to encourage the public to recycle more of their waste".

3. Cydymffurfio a Gorfodi

Cyflwyniad

- 3.1** Mae'r bennod hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad am gydymffurfio a gorfodi. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod fframwaith effeithiol ar gyfer cydymffurfio a gorfodi'n cael ei roi ar waith a bod yr effeithiau negyddol o weithgarwch gwastraff anghyfreithlon, yn enwedig y rheini a achoswyd gan rai sy'n ceisio efadu talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT), yn cael eu lleihau. Bydd y bennod hon yn crynhoi'r ymatebion ar y defnydd o bontydd pwysu, codi treth am ollwng gwastraff yn anghyfreithlon, cosbau troseddol a sifil a materion eraill sy'n ymwneud â chydymffurfio gan gynnwys mynd i'r afael ag osgoi trethi.

Cwestiwn 15: Beth fyddai goblygiadau ymarferol rhoi dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i ddefnyddio pont bwysu lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi, neu yn y cyffiniau agos, ynghyd â chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny?

- 3.2** O'r 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf o blaid rhoi dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i ddefnyddio pont bwysu. Er enghraifft, dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes y gyfraith "there appears to be no reason why an operator should not be obliged to use a weighbridge where one is available and functional", a chytunai un gweithredwr safle tirlenwi gan ddweud na fyddai goblygiadau ymarferol o gyflwyno'r newid hwn, gan y dylai gweithredwyr safleoedd tirlenwi fod yn pwysu'r rhan fwyaf os nad y cyfan o'r trafodiadau gwastraff yn barod. Yn ogystal â hyn, dywedodd un busnes y byddai'r newid yn hyrwyddo "greater accuracy of recording and help maintain a level playing field in the waste management industry".
- 3.3** Ymhlith yr ymatebwyr hynny a oedd yn gefnogol, rhai o'r pwyntiau ychwanegol a nodwyd oedd:
- os nad oedd pont bwysu ar gael ar y safle, ei bod yn "fair and reasonable to expect a public or other compliant weighbridge to be used";
 - byddai'r newid hwn yn creu "enhanced level of scrutiny and will help to cut down on the amount of tax evasion"; ac
 - er ei bod yn ddymunol rhoi dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi lle bo'n ymarferol, y dylid ystyried trefniadau eraill ar gyfer sefyllfa lle nad oes pont bwysu ar gael.

- 3.4 Roedd llond llaw o ymatebwyr yn pryderu am y goblygiadau ymarferol pe byddai dyletswydd yn cael ei rhoi ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i ddefnyddio pont bwysu. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol ei bod yn bosibl y byddai'r newid hwn yn cosbi'r gweithredwr llai "increasing operational and administrative costs of their operations". Awgrymodd un gweithiwr proffesiynol ym maes fod achosion lle mae defnydd gorfodol o bont bwysu'n anymarferol neu'n amhosibl, ac aeth ymlaen i ddweud y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried "maintaining the potential for landfill site operators to agree alternative methods" ar gyfer pwysu gwastraff.

Cwestiwn 16: Beth fyddai goblygiadau ac ystyriaethau ymarferol estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth?

- 3.5 O'r 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, nododd y rhan fwyaf y byddent o blaid camau i estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi. Yn ogystal â hyn, cyfeiriodd llond llaw o ymatebwyr at bwysigrwydd dyrannu digon o adnoddau at orfodi os bydd y diffiniad yn cael ei estyn. Yn groes i hynny, roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn cwestiynu beth fyddai manteision estyn y diffiniad.
- 3.6 O blith yr ymatebion a oedd o blaid estyn y diffiniad, dywedodd un busnes y byddai'r newid hwn yn rhoi "additional deterrent to illegal disposals of waste and would help to support the Welsh Government's Fly-tipping Strategy". At hynny, roedd un gweithredwr safle tirlenwi o blaid y newid a fyddai'n gorfodi gweithredwyr safleoedd gwastraff anghyfreithlon i dalu'r dreth sy'n ddyledus, ar y gyfradd safonol, a dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y byddai hyn yn "positive step in a number of areas", a fyddai'n cymell gweithredwyr safleoedd tirlenwi i ddiogelu eu terfynau rhag gollwng gwastraff anghyfreithlon, ac y byddai'r bygythiad o "tax being levied twice on this material", fel a geir yn yr Alban, hefyd yn arf ataliol.
- 3.7 Cyfeiriodd nifer bach o ymatebwyr at yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi estyn y diffiniad i gynnwys gwarediadau ar unrhyw dir lle y dylid bod wedi cael awdurdodiad ond lle na ddigwyddodd hynny. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw un a gaiff ei ddal yn gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon yn gorfod talu'r dreth ar y pwynt lle'r oedd wedi'i waredu'n anghyfreithlon ac eto wedyn pan gaiff ei drosglwyddo i safle tirlenwi trwyddedig. Dywedodd un ymatebydd fod hyn yn dangos yn glir y bydd gwaredu gwastraff anghyfreithlon yn cael ei weld yn fater difrifol iawn.

- 3.8 O'r sylwadau a oedd yn cyfeirio at bwysigrwydd dyrannu digon o adnoddau at orfodi'r diffiniad estynedig hwn, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) na fyddai'r mesur hwn yn effeithiol oni bai fod digon o dystiolaeth yn cael ei chasglu i gymryd camau gorfodi llwyddiannus. Roedd ymatebydd arall, corff proffesiynol, wedi dod i'r casgliad y byddai angen darparu adnoddau i awdurdodau lleol a CNC "to carry out monitoring and enforcement activity".
- 3.9 Yn olaf, nododd nifer bach o ymatebwyr nad oeddent yn sicr beth fyddai manteision estyn y diffiniad, gydag un Cyngor Cymuned, er enghraifft, yn dweud nad oedd hyn dal yn ataliad digonol a'i fod yn ffafrio "strict penalties", gan gynnwys "vehicle confiscation". Roedd un corff proffesiynol yn amheus ynghylch cymylu'r gwahaniaeth rhwng gweithgarwch cyfreithlon a gweithgarwch anghyfreithlon. Er ei fod yn cytuno y gallai fod yn "administratively simpler" ac yn fwy effeithlon codi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar droseddwr, daeth yr ymatebydd i'r casgliad mai mwy priodol fyddai cymhwyso sancsiynau troseddol. Aeth yr ymatebydd ymlaen i ddweud ei bod yn anodd gweld "why they [offenders] should be taxed as if they had disposed of it twice".

Cwestiwn 17: A oes unrhyw anawsterau ynghlwm wrth y drefn gosbi bresennol, ac os oes, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?

- 3.10 O'r 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd dros dwy ran o dair wedi'u rhannu rhwng naill ai bod yn anymwybodol o unrhyw anawsterau ynghlwm wrth y drefn gosbi bresennol neu beidio â bod â barn. Yn groes i hynny, credai'r traean arall y gellid newid y drefn gosbi bresennol er mwyn atal a chosbi ymddygiad anghyfreithlon yn well. Ymhlith y rhain, roedd nifer bach wedi mynegi pryderon ynghylch y gallu i orfodi'r drefn gosbi bresennol.
- 3.11 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hynny a ddywedodd nad oedd unrhyw anawsterau ynghlwm wrth y drefn gosbi bresennol nad oeddent yn gwybod am unrhyw broblemau. Yr awgrym gan un sefydliad oedd "the penalty regime in operation for Landfill Tax is fairly robust and should be adopted".
- 3.12 O blith yr ymatebwyr a ddywedodd y gellid gwneud mwy i atal a chosbi diffyg cydymffurfio, nododd nifer bach ohonynt fod canfyddiad yn dal i fodoli bod cael eu dal yn llai costus na chydymffurfio â'r gyfraith a'i bod yn rhaid iddi ddod yn arfer o drefn nad oes unrhyw fudd ariannol byth drwy dorri'r gyfraith. Yn ogystal â hyn, dywedodd un busnes fod rhai gweithredwyr cludo gwastraff yn manteisio ar y drefn dreth bresennol, drwy ddynodi gwastraff â'r cod anghywir, er

enghraifft. Credai'r ymatebydd hwn y dylid cosbi'r gweithredwr cludo gwastraff a'r gweithredwr safle tirlenwi pe byddai hyn yn digwydd.

- 3.13** Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr wedi mynegi pryder ynghylch gorfodi'r drefn gosbi bresennol. Dywedodd un sefydliad hefyd y dylai'r cyrff gorfodi orfodi'r gyfraith mewn ffordd briodol gan osod "appropriate penalties to remove any economic benefit derived from offending and to deter future offending". Dywedodd un arall fod rhaid wrth adnoddau gorfodi digonol i osod "serious penalties" o'r fath.
- 3.14** Barn wahanol a fynegodd un ymatebydd oedd y byddai llai o angen i gosbi petai caniatâd iddyn nhw ddatblygu seilwaith i sicrhau cyfleusterau ailbroesu yn lleol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Cwestiwn 18: A oes angen rhagor o weithgarwch gorfodi yn y maes, yn hytrach nag wrth ddesg? Os oes, esboniwch eich barn a rhowch dystiolaeth/esboniwch y manteision lle bo modd.

- 3.15** O'r 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, cytunai'r rhan fwyaf bod angen rhagor o weithgarwch gorfodi yn y maes yng Nghymru. Credai lleiafrif bach o'r ymatebwyr fod y prosesau cydymffurfio presennol yn ddigonol, neu y byddai angen darparu rhagor o ddata er mwyn penderfynu.
- 3.16** O blith yr ymatebwyr a gytunai fod angen rhagor o weithgarwch cydymffurfio, nododd nifer ohonynt nad oedd dim a oedd yn gystal â "boots on the ground" ac y byddai rhagor o weithgarwch cydymffurfio yn y maes yn rhoi mwy o "intelligence about illegal activity" i gyrff rheoleiddio. Nododd un corff proffesiynol hefyd fod ymweliadau safle nid yn unig yn atal troseddu dichonol drwy ddangos presenoldeb ond eu bod hefyd yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r safle dan sylw a'r prosesau sydd ar waith.
- 3.17** Roedd llond llaw o ymatebwyr, er eu bod o blaid rhagor o weithgarwch cydymffurfio yn y maes, wedi gofyn pwy a fyddai'n rheoli'r oruchwyliaeth ar y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Holodd nifer bach o ymatebwyr am y rhan y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei chwarae yn y broses gydymffurfio. Cyfeiriodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth at Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA), a manteision gweinyddu a gorfodi treth ar dirlenwi gan asiantaeth sy'n deall y gweithrediadau a phrosesau ar safleoedd tirlenwi. Awgrymodd yr ymatebydd y gallai Llywodraeth Cymru ystyried CNC "for similar reasons".

- 3.18 Dywedodd CNC y bydden nhw'n parhau i “work with [the] Welsh Government to explore any potential role that we may have in compliance or enforcement of this regime, to ensure that we are fully funded and that there is a resilient level of knowledge and skills present to enable us to deliver any role effectively”.
- 3.19 Roedd un corff proffesiynol hefyd a ddywedodd ei fod o blaid rhagor o “practical enforcement action” i fynd i'r afael â throddu sy'n ymwneud â gwastraff anghyfreithlon. Dywedodd y corff hwn y dylai'r corff rheoleiddio helpu busnesau a gweithredwyr gwastraff i gael gwell dealltwriaeth a “comply with regulations prior to resorting to any enforcement action”. Roedd y sefydliad hwn o blaid “education as the first response to non-compliance”.
- 3.20 Yn olaf, dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth fod CThEM wedi cael rhywfaint o lwyddiant “in identifying under declared tax”, ond bod lle i gredu, gan fod y broses hon yn hir a chostus, y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio, wrth ymgymryd â rhagor o weithgarwch cydymffurfio, ar “limited, targeted basis”, ar achosion lle mae tystiolaeth gadarn sy'n cyfiawnhau archwiliad ffisegol.

Cwestiwn 19: A oes unrhyw gamau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i ddefnyddio'i phwerau trethu newydd i wella'r cydymffurfio a'r gorfodi ac i sicrhau bod efadu talu'r Dreth Dirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl? Os oes, disgrifiwch y camau posibl hynny?

- 3.21 O'r 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd nifer bach y byddai rhagor o arolygiadau safle a/neu gynyddu'r cosbau am efadu talu'r dreth yn atal darpar droseddwy.
- 3.22 Yn ogystal â hyn, dywedodd lleiafrif o ymatebwyr y byddai rhagor o gyhoeddusrwydd, cyfathrebu ac ymgysylltu â gweithredwyr a'r cyhoedd, ynghylch cydymffurfio a chosbau, yn cael effaith gadarnhaol.
- 3.23 Rhai o'r pwyntiau eraill a wnaed oedd:
- bod cyfleoedd ar gael i gyrraedd nodau a chanlyniadau cyffredin drwy gydweithio â CNC, gan leihau beichiau gweinyddol a rhannu gwybodaeth yn well;
 - sicrhau bod “suitable resources” wedi'u dyrannu i gyrff rheoleiddio i sicrhau gwell cydymffurfiaeth wrth dalu treth;
 - rhagor o arolygiadau a “scientific testing”, fel y prawf Colli wrth Danio, i wella cydymffurfiaeth ar safleoedd;

- ystyried treth ar weithgynhyrchwyr ar sail “recyclability and longevity of their products”.

Cwestiwn 20: Yn eich barn chi, a oes tystiolaeth o osgoi talu'r Dreth Dirlenwi bresennol a beth yw natur yr osgoi hwn?

- 3.24** Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch y gwahaniaeth rhwng efadu ac osgoi yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Er mwyn egluro, mae CThEM yn diffinio osgoi fel a ganlyn: “Tax avoidance... unlike evasion is not in itself illegal, but it involves using the tax law to get a tax advantage that Parliament never intended. It frequently involves contrived, artificial transactions that serve little or no purpose other than to reduce tax liability”.⁷ Y diffiniad o efadu treth yw peidio â thalu neu dalu rhy ychydig o dreth yn anghyfreithlon, gan arwain fel arfer at wneud datganiad anwir neu beidio â gwneud datganiad o gwbl am drethi sy'n ddyledus i'r awdurdodau treth perthnasol.
- 3.25** O'r 16 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd dros dwy ran o dair ei bod yn bosibl osgoi talu, neu eu bod yn gwybod am achosion lle'r oedd y dreth wedi'i hosgoi. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod y dystiolaeth a roddwyd gan nifer o'r ymatebwyr hyn yn cyfeirio at gamddosbarthu gwastraff, gwneud datganiad anwir a thipio anghyfreithlon, sydd i gyd yn weithgareddau anghyfreithlon ac felly'n efadu. Roedd un enghraifft a oedd o bosibl yn dynodi osgoi ac roedd hynny'n ymwneud ag addasu cyfansoddiad y gwastraff, gan gynnwys y cynnwys dŵr. Awgrymodd yr ymateb hwn fod gwastraff yn cael ei addasu'n fwiadol er mwyn bod yn gymwys i gael eithriad neu ostyngiad.
- 3.26** O'r ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn bosibl osgoi a/neu efadu talu, credai dau sefydliad nad oedd hyn yn digwydd ar raddfa eang, gan gredu mai dim ond lleiafrif o fusnesau yng Nghymru oedd yn gwneud hyn. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod un o'r ddau sefydliad hyn wedi dod i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru “ensure all firms are operating on a level playing field”, ac felly roedd o blaid “principle of a General Anti-Avoidance Rule” (GAAR).
- 3.27** O'r ychydig o ymatebwyr a nododd nad oeddent yn gwybod am unrhyw achosion o osgoi'r Dreth Dirlenwi, dywedodd un gweithredwr safle tirlenwi ei bod yn amhosibl osgoi'r dreth yn y “well scrutinised environment” lle mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi a chludwyr gwastraff yn gweithio, ac ychwanegodd y byddai gweithredwyr yn cysylltu â'r awdurdod rheoleiddio perthnasol bob amser os oeddent yn ansicr.

⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/tackling-tax-avoidance--2>

4 Gweinyddu

Cyflwyniad

- 4.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru symleiddio a moderneiddio prosesau gweinyddol a sicrhau ei bod yn hawdd cydymffurfio. Yn benodol, roedd Llywodraeth Cymru wedi holi ymatebwyr am gysoni'r cyfnod anfonebu â'r flwyddyn ariannol, goblygiadau ymarferol ei gwneud yn ofynnol bod codau Catalog Gwastraff Ewrop (EWC) yn cael eu defnyddio wrth lenwi'r ffurflen dreth, pa gyfleoedd sydd ar gael i symleiddio a moderneiddio'r drefn o ffeilio ffurflenni treth gan gynnwys gwella'r cymorth electronig ac ar-lein ac, yn olaf, yr amgylchiadau lle mae'n briodol rhoi gostyngiad ar ddyledion drwg.

Cwestiwn 21: A fydddech chi o blaid cysoni cyfnod dychwelyd y ffurflen dreth â'r Flwyddyn Ariannol? Esboniwch eich rhesymau.

- 4.2 O'r 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd mwy na hanner yr ymatebwyr wedi nodi eu bod o blaid cysoni cyfnod y ffurflen dreth â'r flwyddyn ariannol gan ddweud y byddai'n symleiddio trefniadau gweinyddol ac yn cynnig manteision o ran cysondeb. Yn ôl un corff proffesiynol "simplification of the tax regime [would] enable businesses to better manage their tax reporting requirements", a nododd un arall y dylid cefnogi cysoni cyfnod y ffurflen dreth os gellir cael arbedion drwy effeithlonrwydd wrth wneud hynny.
- 4.3 Barn arall a fynegwyd oedd y dylai Llywodraeth Cymru gael ei chymell i wneud penderfyniad o'r fath, er mwyn hwyluso cylch busnes y gweithredwyr safleoedd.
- 4.4 Roedd nifer bach o ymatebwyr o blaid cysoni cyfnod y ffurflen dreth â'r flwyddyn ariannol ac felly ei gysoni â chyfnodau'r ffurflenni gwastraff chwarterol y mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n eu llenwi i'w cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Credent y byddai hyn o gymorth i gydymffurfio a nododd CNC, er enghraifft, y byddai cysoni o'r fath yn ei gwneud yn haws croeswrio. Roedd ymatebydd arall, corff proffesiynol, yn cytuno a dywedodd fod manteision i hyn "in terms of identifying the quantities and types of wastes accepted at landfill sites".
- 4.5 Yn groes i hynny, roedd nifer o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau gwahanol gan nodi un ai nad oeddent o blaid cysoni cyfnod y ffurflen dreth â'r flwyddyn ariannol, neu y dylai hyn fod yn opsiwn gwirfoddol i weithredwyr. Cafwyd yr

ymatebion hyn gan wahanol fathau o sefydliadau gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes treth, gweithredwyr safleoedd tirlenwi, a chyrff proffesiynol. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth “operators should be free to choose their accounting quarters as per VAT returns... and the operator should be empowered such that they can successfully manage their own cash flow position”. At hynny, nododd gweithiwr proffesiynol arall ym maes treth fod caniatáu i fusnesau ddewis eu cyfnodau cyfrifyddu eu hunain yn helpu i leihau'r baich gweinyddol sy'n cael ei osod ar drethdalwyr.

Cwestiwn 22: Beth fyddai goblygiadau ymarferol ei gwneud yn ofyniad bod codau Catalog Gwastraff Ewrop yn cael eu defnyddio wrth gwblhau'r ffurflen dreth?

- 4.6 O'r 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt un ai nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau sylweddol i weithredwyr tirlenwi o'i wneud yn ofyniad bod codau Catalog Gwastraff Ewrop (EWC) yn cael eu defnyddio wrth lenwi'r ffurflen dreth, neu y byddai'r baich yn fach iawn, wrth drefnu'r broses gychwynnol a'r gwaith gweinyddol.
- 4.7 Nododd un sefydliad na fyddai'r newid hwn yn gosod ond y baich lleiaf “whilst simplifying the process of cross checking tax and waste returns”. Roedd un corff cyhoeddus yn cytuno â'r farn hon yn ei ymateb, ac yn nodi y byddai'r defnydd o godau EWC mewn ffurflenni treth a ffurflenni gwastraff yn caniatáu mwy o gysondeb ac yn rhoi mwy o allu i groeswiro'r wybodaeth. Dywedodd un corff proffesiynol y dylai'r codau EWC fod yn “well known”... a bod y goblygiadau ymarferol o'i wneud yn ofyniad bod y codau hyn yn cael eu defnyddio wrth lenwi ffurflenni treth yn fach iawn gan y dylai gweithredwyr safleoedd tirlenwi fod â'r gallu i'w defnyddio.
- 4.8 Mewn cyferbyniad â hynny, roedd lleiafrif o ymatebwyr yn anghytuno, gan ddweud y gellid cael goblygiadau o'i wneud yn ofyniad bod gweithredwyr safleoedd yn defnyddio codau EWC wrth lenwi ffurflenni treth. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y gallai'r broses hon fod yn “time consuming and expensive” a dywedodd un busnes nad oes modd cymharu codau EWC yn llawn â nifer o godau EWC sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y cyfraddau treth isaf a safonol.

Cwestiwn 23: Sut y gallai Llywodraeth Cymru symleiddio a moderneiddio ffeilio ffurflenni treth, gan gynnwys gwella'r cymorth electronig ac ar-lein?

- 4.9 O'r 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf o blaid moderneiddio'r dull o ffeilio ffurflenni treth, ac yn ffafrio ffeilio electronig a chymorth ar-lein. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi dweud y dylid parhau i drefnu bod ffurflenni papur traddodiadol ar gael, fel opsiwn arall. Yn wir, nododd un corff proffesiynol: "should an operator be located in a remote rural area there are often significant challenges to the use of electronic returns and online support".
- 4.10 Roedd yr ymatebion a oedd o blaid ffeilio ffurflenni treth yn electronig ac ar-lein yn dweud y byddai'r dull gweithredu yn helpu i sicrhau a symleiddio trefniadau ond roeddent yn dweud y dylai unrhyw ateb fod yn gymesur. Felly roedd yr ymatebwyr hyn yn edrych yn ffafriol ar y posibilrwydd o ddefnyddio opsiwn electronig a fyddai'n ddiogel ac yn hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio. Dywedodd un corff proffesiynol cyfreithiol mai cam yn ôl fyddai "continue with a paper based system"; tra oedd ymatebydd arall yn mynnu y byddai opsiwn ar-lein yn "favourable for operators and for the relevant tax authority". Er bod un corff proffesiynol o blaid cynnig llwyfan digidol, dywedodd y dylai'r gost am weinyddu'r dreth newydd fod yn gymesur â'r referniw y mae'n ei godi.
- 4.11 Cyfeiriodd un corff proffesiynol at bosibilrwydd cynllunio llwyfan digidol gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) lle gellid monitro a gweinyddu'r casglu ar drethi datganoledig ar-lein drwy'r un rhaglen, a fyddai'n lleihau'r costau a hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo agenda "Cymru Ddigidol".
- 4.12 At hynny, roedd nifer bach o ymatebwyr wedi awgrymu cyfuno'r ffurflen dreth â ffurflenni gwastraff CNC. Dywedodd sefydliad amgylcheddol y byddai hyn yn sicrhau cywirdeb ac yn arbed amser gweinyddu. Yn ogystal â hyn, dywedodd un gweithredwr safle tirlenwi fod y ffurflenni treth yn "quite straight forward" yn barod.
- 4.13 Er eu bod yn gwerthfawrogi manteision posibl defnyddio ffurflenni electronig, roedd nifer bach o ymatebwyr wedi mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd y byddai dadansoddiad cost a budd yn dangos nad oedd sefydlu llwyfan ar-lein yn ddichonol am fod nifer y safleoedd tirlenwi'n fach ac yn parhau i ostwng. Yn ogystal â hyn, roedd awgrym y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio'n agos â CNC i ystyried opsiynau, a rhannu eu profiadau o redeg systemau TG ar gyfer

trwyddedau a ffurflenni gwastraff, fel y gallai Llywodraeth Cymru werthuso opsiynau posibl wrth symud ymlaen.

Cwestiwn 24: A ddylid cynnig gostyngiad ar ddyledion drwg ac os felly, o dan ba amgylchiadau y mae hyn yn briodol?

- 4.14** O'r 22 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf wedi nodi eu bod yn cefnogi hyn.
- 4.15** O'r ymatebwyr a oedd o blaid trefnu bod rhyw fath o ostyngiad ar gael ar ddyledion drwg, dywedodd nifer ohonynt y byddai mantais o bosibl o gael math mwy cyfyngedig o ostyngiad ar ddyledion drwg, neu o gyfyngu'r amodau ar gyfer ymgeisio amdano. Er enghraifft, dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth ei fod o blaid parhau â gostyngiad ar gyfer dyledion drwg, ond ei fod yn derbyn y ddadl o blaid cyfyngu ar y graddau yr oedd yn cael ei gymhwyso at fusnesau, er enghraifft, drwy gyflwyno gofyniad bod cwsmer y gweithredwr i gael ei ddatgan yn fethdalwr yn swyddogol cyn y gall y gweithredwr hawlio gostyngiad.
- 4.16** Cyfeiriodd nifer bach o ymatebwyr at fodel Llywodraeth yr Alban, sydd wedi cyfyngu'r amgylchiadau lle gall gweithredwyr safleoedd tirlenwi hawlio gostyngiad ar ddyledion drwg, gan ei gymeradwyo.⁸ Nododd un awdurdod lleol fod model yr Alban yn gwneud synnwyr, ac ychwanegodd na ddylai Llywodraeth Cymru gynnig "significant tax relief for the public sector". Yn ogystal â hyn, dywedodd un corff proffesiynol y bydd mantais o bosibl mewn cyfyngu'r amodau lle mae gostyngiad ar ddyledion drwg yn gymwys, gan ychwanegu y dylid cadw golwg ar y profiad yn yr Alban.
- 4.17** O'r ymatebion a oedd o blaid trefnu i ryw fath o ostyngiad fod ar gael ar ddyledion drwg, dywedodd llond llaw o ymatebwyr y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno efelychu'r model presennol ar gyfer gostyngiad ar ddyledion drwg TAW o ran yr amser sy'n mynd heibio cyn y gellir cyflwyno hawliad. O dan ddeddfwriaeth y DU, gellir hawlio gostyngiad ar ddyledion drwg ar ôl cyfnod o 12 mis, ond gellir hawlio gostyngiad ar ddyledion drwg ar gyfer TAW ar ôl chwe mis. Wrth gyfeirio at hyn, dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y gallai hyn helpu i wella llif arian gweithredwyr safleoedd tirlenwi.

⁸ Rheoliadau Tirlenwi'r Alban (Gweinyddu) 2015 (<http://www.legislation.gov.uk/ssi/2015/3/made>) paragraff 25.

Cwestiwn 25: A oes gennych unrhyw sylwadau am sut mae'r darpariaethau adolygiadau mewnol ac apeliadau presennol yn gweithio yng nghyd-destun y Dreth Dirlenwi, gan gynnwys yn benodol y bobl sy'n gymwys i ofyn am adolygiad neu apêl?

- 4.18 O'r 7 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd amrywiaeth o atebion ac nid oedd yr un duedd na thema.
- 4.19 Mewn nifer bach o ymatebion, cyfeiriwyd at bwysigrwydd proses yr "independent review", a nododd un corff proffesiynol: "it should be clear that an independent review is independent". Nid oedd y naill ymateb na'r llall yn ymhelaethu ar sut y dylai'r broses hon weithio'n ymarferol.
- 4.20 Dywedodd un corff proffesiynol fod angen i Lywodraeth Cymru "issue regulations regarding the timescales within which the WRA should deal with appeals". Aeth yr ymatebydd ymlaen i ddweud y bydd cael eglurhad o'r mater hwn yn rhoi gwell syniad i fusnesau am yr amser a'r costau a fydd ynglŷn â'r broses apeliadau, a'r risgiau a fydd yn gysylltiedig. Yn olaf, nododd yr ymatebydd y dylid rhoi "statutory duty" ar ACC i'w wneud yn ofynnol i'r sefydliad adrodd yn flynyddol ar yr amser y mae wedi'i gymryd i ddelio â chwynion ac apeliadau.
- 4.21 Dywedodd un gweithiwr proffesiynol ym maes treth y dylid ystyried caniatáu i bob sefydliad ac unigolyn a oedd yn rhan o gadwyn, fel cynhyrchwyr gwastraff, cludwyr gwastraff a gweithredwyr safleoedd tirlenwi, adolygu ac apelio yn erbyn pob penderfyniad a fyddai'n effeithio arnyn nhw, oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion y cwsmer fyddai'n dwyn baich y dreth. Yn groes i hynny, awgrymodd un awdurdod lleol y gallai'r broses adolygiadau ac apeliadau roi mantais annheg i'r rheini sy'n efadu talu treth, gan awgrymu y gallai ymddygiad ymglyfreitha blinderus a gwastraffu amser ohirio talu treth, gan fynd ymlaen i ddweud bod "sufficient evidence that where the system allows it there is significant abuse".
- 4.22 Rhai o'r ymatebion eraill a gafwyd oedd:
- defnyddio system debyg i *PayPal*; a,
 - datrys apeliadau a chwynion ar-lein os yw'r ddau barti'n cytuno ar y ffordd i'w datrys;

Cwestiwn 26: Yn eich barn chi, a oes amgylchiadau eithriadol lle y dylai trethdalwyr allu gohirio talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi nes bod eu hapêl wedi dod i ben?

- 4.23 O'r 11 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylid ystyried amgylchiadau eithriadol lle y gellid gohirio talu nes bydd apêl wedi dod i ben. O blith yr ymatebwyr a gredai y dylid ystyried amgylchiadau eithriadol, cyfeiriodd nifer at bwysigrwydd darparu tystiolaeth o galedi.
- 4.24 Roedd lleiafrif o ymatebwyr, a oedd yn cynnwys dau weithiwr proffesiynol ym maes treth, wedi nodi nad oes amgylchiadau eithriadol y dylid eu hystyried ar gyfer gohirio talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT) ar hyn o bryd.
- 4.25 Cafwyd ymatebion eraill a oedd yn nodi datblygiadau yn yr Alban, a dywedodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno dull a allai fod yn fwy cadarn o ymdrin â thalu. Mae Deddf Refeniw'r Alban a Phwerau Trethu 2014 yn cynnwys egwyddor gyffredinol o dalu'n gyntaf lle bydd treth yn parhau'n ddyledus a thaladwy wrth ddisgwyl i adolygiad neu apêl ddod i ben.⁹ Mae pŵer gan Lywodraeth yr Alban (o dan is-ddeddfwriaeth) i ddarparu ar gyfer amgylchiadau lle y gellir gohirio talu wrth ddisgwyl i adolygiad neu apêl ddod i ben.¹⁰ Ar ddiwedd ei sylwadau, nododd yr ymatebydd hwn y bydd proses o'r fath nid yn unig yn caniatáu datrys dadleuon ynghylch y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ond y bydd yn werthfawr hefyd ar gyfer unrhyw bwerau codi treth y gellid eu datganoli i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, gan awgrymu y byddai proses apeliadau ar gyfer TGT, wedi'i seilio ar yr arferion gorau, yn gallu dylanwadu ar y ffordd o ddeddfu ar gyfer trethi datganoledig yn y dyfodol.

⁹ a. 245 Deddf Refeniw'r Alban a Phwerau Trethu 2014 (<http://www.legislation.gov.uk/asp/2014/16/enacted>).

¹⁰ Mae rhagor o wybodaeth ar gael am yr Offeryn Statudol perthnasol ar gyfer yr Alban sydd wedi'i grybwyll uchod yn: <http://www.legislation.gov.uk/ssi/2015/129/contents/made>

5 Lles y gymuned

Cyflwyniad

- 5.1** Yn y bennod hon ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau a oedd yn holi a ddylid defnyddio cyfran o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT) i wella lles y gymuned. Wrth ddatblygu TGT mae'n bwysig ystyried sut y mae safleoedd tirlenwi ac efadu'r Dreth Dirlenwi yn effeithio ar gymunedau. Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn holi am safbwyntiau ynghylch a ddylid dyrannu cyfran o refeniw TGT i fynd i'r afael â hyn, gan edrych yn benodol ar y gweithgareddau arfaethedig a allai gael arian a'r dewisiadau gweinyddol i sicrhau bod y swm mwyaf posibl o arian yn cyrraedd mentrau gwerth chweil.
- 5.2** Y bennod hon a ddenodd y mwyaf o sylw, ac roedd dros hanner cyfanswm yr ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau hyn. Fel rhan o'r ymgynghoriad, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cael 138 o lythyrau oddi wrth aelodau Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn cefnogi dyrannu cyfran o refeniw TGT ar gyfer mentrau bioamrywiaeth a bywyd gwyllt i wella lles cymunedau. Mae llythyrau'r Ymddiriedolaeth Natur yn cael eu hystyried fel rhan o'r dadansoddiad a'r crynodeb ar gyfer y bennod hon.

Cwestiwn 27: A ddylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau?

- 5.3** Cafwyd cefnogaeth eang i gronfa a allai wella lles cymunedau.
- 5.4** Roedd llythyrau'r Ymddiriedolaeth Natur yn cefnogi parhau â chronfa i helpu elusennau i gynnal prosiectau hanfodol "to protect and enhance Wales' most important habitats and species". Mae'r llythyr yn trafod pwysigrwydd prosiectau cymunedol sy'n creu "direct benefits for communities who live with the adverse environmental impact caused by landfill sites", ac yn dweud y byddai parhau â'r gefnogaeth i gronfa lles cymunedol yn helpu Llywodraeth Cymru i gwrdd ag amcanion amgylcheddol allweddol a dyletswyddau cyfreithiol.
- 5.5** Yn ogystal â'r llythyrau, cafwyd 123 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd y mwyafrif yn gefnogol ar y cyfan i barhau â dyrannu cyfran o'r refeniw o TGT gan Lywodraeth Cymru at wella lles cymunedau. Rhai geiriau a themâu a gododd yn aml oedd: "compensating communities", "protection" ac "enhancement" yng nghyswllt "natural environment", diogelu'r diwydiant ymwelwyr yng Nghymru, lliniaru tlodi, ac egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Yn

ogystal â hyn, roedd nifer wedi dweud bod y Gronfa Gymunedol Tirlenwi (CGT) yn ffynhonnell ariannol hanfodol a mawr ei hangen ar gyfer prosiectau cymunedol, ac y dylid ei chadw ar ryw ffurf yma yng Nghymru.

- 5.6 Dim ond lleiafrif bach a ddywedodd na ddylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyfran o refeniw i'r CGT. Dywedodd un corff proffesiynol y bydd y “declining revenue” y disgwylir ei gael o TGT yn y blynyddoedd nesaf yn golygu na fydd y gronfa hon bellach yn “cost effective approach”. Aeth yr ymatebydd ymlaen i ddweud y gellid gwario'r arian hwn yn fwy effeithiol o'i ddyrannu i awdurdodau lleol i gynnal “waste awareness work”, neu fel arall ei bod yn ymddangos yn fwy synhwyrol bod y refeniw a godir yn cyfrannu at “strategic funding within the Welsh Government to protect public services”.

Cwestiwn 28: Os bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau, pa un o'r gweithgareddau a ganlyn a ddylai gael budd o'r arian, a pham?

- Cryfhau'r trefniadau cydymffurfio a gorfodi a sicrhau bod troseddau gwastraff yn cael cyn lleied o effaith â phosibl
- Helpu i leihau gwastraff a throï oddi wrth safleoedd tirlenwi
- Cynlluniau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach
- Trechu tlodi ac amddifadedd mewn cymunedau
- Rhywbeth arall (manylwch)

- 5.7 O'r 76 o ymatebion, roedd mwy na hanner yn cefnogi prosiectau a oedd yn canolbwyntio ar 'biodiversity and wildlife'. Mewn nifer o'r ymatebion hyn, nodwyd bod prosiectau o'r fath yn gwneud iawn o ryw fath â'r rheini sy'n byw ger safle tirlenwi, a nododd un busnes fod “biodiversity initiatives... are able to compensate communities”.

- 5.8 At hynny, roedd y 138 o lythyrau a gafwyd gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn cytuno bod cynnal mentrau bioamrywiaeth a phrosiectau natur yn hollbwysig. Mae'r llythyr yn datgan bod angen cronfa o'r fath er mwyn gwrthdroi “the terrible loss of wildlife” yn y DU, gan ychwanegu bod y prosiectau hyn yn caniatáu i gymunedau ddod i gysylltiad â natur, a'u bod hefyd yn cynnig “opportunities for people to volunteer”, gan eu galluogi i ddysgu sgiliau newydd “whilst improving their health and wellbeing”. Mae'r llythyr yn datgan hefyd fod arian ar gyfer prosiectau amgylcheddol yn gallu creu “significant added value”, a bod mwy o elw i'w gael o bob punt o gyllid grant a roddir.

- 5.9 Roedd cefnogaeth hefyd ar gyfer gweithgareddau i leihau gwastraff, a oedd yn amrywio o “support for community recycling initiatives” i gefnogaeth i brosiectau sy'n cynhyrchu llai o wastraff yn y lle cyntaf. Dywedodd un unigolyn y byddai cymorth a chefnogaeth i gymunedau “to dispose of their rubbish responsibly would be helpful”. Roedd unigolyn arall yn cefnogi gweithgareddau ailddefnyddio a thrwsio sy'n cadw deunyddiau ac yn cadw eu gwerth cymdeithasol ac economaidd. Yn ogystal â hyn, nododd un sefydliad yn y trydydd sector “waste minimisation and re-use can play a major role in tackling poverty and deprivation”, ac aeth ymlaen i ddweud y byddid yn hybu “targeted application of tax revenues to develop the re-use sector”.
- 5.10 Roedd nifer bach o ymatebwyr o blaid ariannu gweithgareddau sy'n ymwneud â chydymffurfio a gorfodi. Er enghraifft, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y byddai o blaid defnyddio referniw o TGT ar gyfer gweithgareddau cydymffurfio a gorfodi oherwydd “wider potential benefits that an effective enforcement regime could bring to community wellbeing”.
- 5.11 Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid canolbwyntio arian ar brosiectau sy'n dod â budd uniongyrchol i gymunedau ac, oherwydd hynny, na ddylid ei ddefnyddio ar gyfer gwaith cydymffurfio a gorfodi. Er enghraifft, dywedodd un busnes y dylai arian gael ei ddefnyddio “for the communities rather than to supplement the work of public bodies in terms of these activities”.
- 5.12 Un thema gyffredinol a gododd mewn nifer o'r ymatebion oedd ei bod yn bwysig bod unrhyw gronfa ar gyfer gwella lles cymunedol yn ceisio trechu tlodi mewn cymunedau. Dywedodd un corff proffesiynol y dylai trechu tlodi fod yn “key driver”, ac aeth ymlaen i dynnu sylw at bwysigrwydd “sustainable business growth”, a “job creation”. Cyfeiriodd un ymatebydd yn y trydydd sector at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan ddweud mai lliniaru tlodi a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ddylai fod yn egwyddorion cyffredinol ar gyfer unrhyw gronfa.

Cwestiwn 29: A oes gennych chi farn am y model gweinyddu y gellid ei ddefnyddio?

- 5.13 O'r 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd mwy na hanner o blaid cael un ai nifer bach o gyrff dosbarthu neu, yn wir, un corff dosbarthu amgylcheddol (DEB) i weinyddu cronfa. Er enghraifft, dywedodd un sefydliad yn y trydydd sector y byddai canolwr annibynnol, profiadol a dibynadwy yn gallu “distribute the grant while minimising administrative costs”. Yn ogystal â hyn, dywedodd

un ymatebydd o'r trydydd sector y dylai'r gronfa fod yn "accessible, have light administrative burden, and a quick turn around", ac aeth ymlaen i ddweud bod nifer o sefydliadau sydd ag arbenigedd sylweddol.

- 5.14** Cyfeiriodd llond llaw o ymatebwyr at leoliad daearyddol y cynlluniau posibl, gan ddweud y dylid llacio'r gofyniad bod prosiect sy'n gwneud cais am arian o'r CGT o fewn 10 milltir i safle tirlenwi. Dywedodd un sefydliad yn y trydydd sector y dylid cynyddu hyn gan ganiatáu i fwy o brosiectau elwa "as the current restriction runs the risk of exhausting the provision of projects in closer proximity". Dywedodd un awdurdod lleol na ddylid cyfyngu ar weithgareddau amgylcheddol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y gymuned i'r radiws o 10 milltir gan gefnogi farn na ddylid cyfyngu ar unrhyw gronfa i ardal leol safle tirlenwi dynodedig yn unig.
- 5.15** Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y byddai mantais mewn dileu'r gofyniad gorfodol o arian cyfatebol gan fod prosiectau'n ei chael yn anodd codi'r 10% sydd ei angen i sicrhau arian. Yn ogystal â hyn, dywedodd un busnes ei bod yn bwysig nad oedd y gronfa'n cael ei chyfyngu gan reolau cymorth gwladwriaethol, gan nodi "money needs to remain away from Government" fel y gellir darparu arian cyfatebol o'r gronfa breifat hon i sicrhau grantiau.
- 5.16** Roedd nifer bach o ymatebwyr yn cefnogi ariannu prosiectau amlflwydd. Dywedodd un sefydliad yn y trydydd sector bod "most Environmental projects need several seasons to be implemented and to carry out effective monitoring" dywedodd un arall "funds committed through a contract are not easy to spend within short timescales". Aeth y naill ymatebydd a'r llall ymlaen i ddweud bod gwahaniaeth rhwng "unspent funds" a'r rheini sy'n cael eu cadw gan DEB er mwyn dyrannu i brosiectau amlflwydd yn flynyddol.
- 5.17** Rhai o'r pwyntiau eraill a godwyd oedd:
- "micro grants can be a very effective tool for mobilising local community-based action";
 - dylid ystyried y cyfanswm a fydd yn cael ei ddyrannu i gronfa;
 - y gellid ystyried model tebyg i'r "Aggregate Levy Fund";
 - y dylid dangos bod unrhyw newidiadau gweinyddol yn fwy effeithlon ac effeithiol na'r trefniadau presennol, a dylid rhoi rhesymau dros wneud y newid hwn.

6 Cwestiynau ychwanegol

Cyflwyniad

- 6.1 Roedd dau gwestiwn ychwanegol yn rhan o'r ymgynghoriad ar TGT a oedd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan ymatebwyr.

Cwestiwn 30: A oes gennych unrhyw faterion cysylltiol nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw neu sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

- 6.2 O'r 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, cyfeiriodd llond llaw o ymatebwyr at bwysigrwydd cadw'r CGT ar ryw ffurf. O blith y rhain, dywedodd un sefydliad trydydd parti fod angen symleiddio'r gronfa hon er mwyn "funders and applicants", a nododd un unigolyn y byddai disgwyl, os nad oedd y gronfa i barhau ar ei ffurf bresennol, i Lywodraeth Cymru ddarparu datganiad clir ynghylch "what amelioration of this negative effect it would seek to make".

- 6.3 Rhai o'r sylwadau eraill a gafwyd oedd:

- y dylai'r holl ddeunydd sy'n cael ei anfon i'w losgi ddod o dan TGT hefyd;
- y dylai costau sy'n gysylltiedig â TGT ganiatáu i "generators of electricity" weithredu ar "level playing field" gyda sefydliadau mewn gwahanol rannau o'r DU;
- y dylid gwneud mwy o ymdrech i fuddsoddi mewn seilwaith sy'n uwch yn yr hierarchaeth gwastraff, er mwyn hyrwyddo ailddefnyddio ac atal gwastraff; ac
- y dylid defnyddio'r arian a godir drwy TGT er mwyn "fund the clearing of illegal deposits of waste".

Cwestiwn 31: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol?

- 6.4 Cafwyd 2 ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, gofynnodd un awdurdod lleol a roddwyd ystyriaeth lawn i'r "significant regulatory, monitoring and report aspect of managing LDT in Wales". Ar ben hynny, roedd un sefydliad amgylcheddol, yn amau "assumptions made in terms of revenue that will be generated", gan nodi bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi cyhoeddi ffigurau diwygiedig ym mis Mawrth 2015, sy'n rhagamcanu "a fall in Landfill Tax

receipts over the next five years, rather than the marginal increase referenced in the consultation paper”.

Atodiad A

Rhestr o ymatebwyr

Unigolion a sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad Treth Gwarediadau Tirlenwi

Yn ogystal â'r ymatebwyr a restrir isod, cafodd Llywodraeth Cymru 138 o lythyrau model gan aelodau o Ymddiriedolaethau Natur Cymru, a oedd yn ymwneud â lles y gymuned. Mae copi o'r llythyr hwn yn Atodiad B.

Cyf.	Enw'r ymatebydd	Categori
1	Dienw	Unigolyn
2	Dienw	Unigolyn
3	Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru	Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
4	Cyngor Tref Tredegar	Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref
5	Dienw	Busnes
6	Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain	Sefydliad
7	Dienw	Unigolyn
8	Dienw	Unigolyn
9	Helen Mcfie	Unigolyn
10	Friends of Hailey Park	Trydydd Sector
11	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam	Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref
12	Mrs Borley	Unigolyn
13	Brian a Susan Burnett	Unigolyn
14	Chris Taylor	Unigolyn
15	Derbyshire Environmental Trust	Trydydd Sector
16	Catherine Gutmann Roberts	Unigolyn
17	Doug Adams	Unigolyn
18	Paula Webster	Unigolyn
19	Barbara Parry	Unigolyn
20	S.J.Dalton	Unigolyn
21	Simon Bell	Unigolyn
22	Richard Cowie	Unigolyn
23	Malcolm Samuels	Unigolyn
24	Teresa Jenkins	Unigolyn
25	Terry Strudwick	Unigolyn
26	Linda Martin	Unigolyn
27	N. A. Wright	Unigolyn
28	Yr Athro Richard Hughes	Unigolyn
29	Lucy Griffiths	Unigolyn

Treth Gwarediadau Tirlenwi – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

30	Phil Coleman	Unigolyn
31	Madeline Sadler	Unigolyn
32	D. Thomas	Unigolyn
33	Jo Humphreys	Unigolyn
34	Michael Harbottle	Unigolyn
35	John Cook	Unigolyn
36	M.A.Samuel	Unigolyn
37	Peter Hatherley	Unigolyn
38	Steve Rosser	Unigolyn
39	Sue Hazell	Unigolyn
40	Margaret Crennell	Unigolyn
41	Cyngor Cymuned Cwmllynfell	Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref
42	RWE Generation UK	Busnes
43	Dienw	Busnes
44	GroundCover D.B.M. Cyfyngedig	Busnes
45	Denbeigh Vaughan	Unigolyn
46	Steve Sutcliffe	Unigolyn
47	Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA)	Gweithwyr Proffesiynol ym maes y Gyfraith, Treth a Chyfrifyddiaeth
48	Lesley Jones	Unigolyn
49	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy	Trydydd Sector
50	NSA AFAN	Trydydd Sector
51	Cyngor Sir Abertawe	Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref
52	Waste Recycling Environmental Cyf (WREN)	Busnes
53	Chris Manley	Unigolyn
54	Cyngor Cymuned Sain Ffagan	Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref
55	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Trydydd Sector
56	Valpak Cyf	Busnes
57	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU)	Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
58	Jan Smith	Unigolyn
59	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)	Trydydd Sector
60	Marilyn Dunkelman	Unigolyn
61	Kevin Heath	Unigolyn
62	David Lewis	Unigolyn
63	EEESafe	Busnes
64	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyrff Cyhoeddus
65	Y Gymdeithas Ddaearegol	Trydydd Sector
66	Dienw	Unigolyn
67	One Planet Council (Wales)	Trydydd Sector
68	Potters Waste Management	Busnes
69	The Wildlife Trusts / Biffa Award	Trydydd Sector
70	Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Cwm Harry	Trydydd Sector

Treth Gwarediadau Tirlenwi – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

	(Elusen)	
71	Coed Cadw	Trydydd Sector
72	Ymddiriedolaeth Natur Gwent	Trydydd Sector
73	Dienw	Busnes
74	Roy Williams	Unigolyn
75	PricewaterhouseCoopers LLP	Gweithwyr Proffesiynol ym maes y Gyfraith, Treth a Chyfrifyddiaeth
76	Ernst and Young	Gweithwyr Proffesiynol ym maes y Gyfraith, Treth a Chyfrifyddiaeth
77	Graham Horder	Unigolyn
78	John Dawes	Unigolyn
79	A. Callaby	Unigolyn
80	Dienw	Unigolyn
81	Augusta Lewis	Unigolyn
82	Susan Danziger	Unigolyn
83	Dick Finch	Unigolyn
84	Dienw	Unigolyn
85	Geoconservation Cymru	Amgylcheddol
86	Dienw	Busnes
87	Monmouthshire Meadows Group	Trydydd Sector
88	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
89	Richard Thomas	Unigolyn
90	Gerwyn Phillips	Unigolyn
91	Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru	Trydydd Sector
92	Robert Waller	Unigolyn
93	Ymddiriedolaeth Natur Gwent	Trydydd Sector
94	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gwleidyddol
95	Mair Pitt	Unigolyn
96	Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru	Sefydliad
97	Bug Life	Trydydd Sector
98	RSPB UK	Trydydd Sector
99	Chloe Griffiths	Unigolyn
100	Energy UK	Amgylcheddol
101	Plantlife	Trydydd Sector
102	Kath Simmonds	Unigolyn
103	RSPB Cymru	Trydydd Sector
104	Daniel James Traynor	Unigolyn
105	Lafarge Tarmac	Busnes
106	Andrew Agnew	Unigolyn
107	Gofal Canser Tenovus	Trydydd Sector
108	Dr. Andrew Walker	Unigolyn
109	Dr. R Roome	Unigolyn
110	Sefydliad Bevan	Trydydd Sector
111	Cyngor Bro Morgannwg	Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref

Treth Gwarediadau Tirlenwi – Crynodeb o'r Ymgynghoriad

112	Dienw	Unigolyn
113	Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)	Busnes
114	Welsh Environmental Services Association (WESA)	Amgylcheddol
115	Cyngor Tref Conwy	Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref
116	Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (CIWM)	Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
117	ENTRUST	Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
118	Roger Jinkinson	Unigolyn
119	Taclo Tipio Cymru	Amgylcheddol
120	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru	Trydydd Sector
121	FCC Environment	Busnes
122	Local Authority Recycling Advisory Committee (LARAC)	Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
123	Cyswllt Amgylchedd Cymru	Trydydd Sector
124	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref
125	Sefydliad Siartredig Trethiant	Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol
126	BIFFA	Busnes
127	Hanson UK	Busnes
128	Madeline Sadler	Unigolyn
129	Geoff Gibbs	Unigolyn
130	Bill Udpá	Unigolyn
131	Home Building Federation Cymru	Busnes
132	Ymddiriedolaeth Natur Gwent	Trydydd Sector
133	Ymddiriedolaethau Natur Cymru	Trydydd Sector
134	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot	Trydydd Sector
135	Cory Environmental	Busnes
136	Mineral Products Association	Busnes
137	Glandŵr Cymru - Canal and River Trust in Wales	Trydydd Sector
138	Deloitte	Gweithwyr Proffesiynol ym maes y Gyfraith, Treth a Chyfrifyddiaeth
139	Georgina Gittins	Unigolyn
140	Huw James	Unigolyn
141	David Phillips	Unigolyn

Atodiad B

Ymddiriedolaethau Natur Cymru – Llythyr Model

Insert address here

Tax Policy and Legislation Division
2nd Floor East
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Dear Welsh Government,

Re: Welsh Government's consultation to the Landfill Disposals Tax

I support the use of Landfill Community Fund (LCF) to fund charities such as the Wildlife Trusts in Wales to undertake essential projects to protect and enhance Wales' most important habitats and species. This fund is needed to try to reverse the terrible loss of wildlife including 60% of UK species being in decline and more than 1 in 10 species in the UK being under threat of extinction.

The LCF is one of the very few funding streams that support projects with primary benefits for wildlife. However, these projects also produce direct benefits for communities who live with the adverse environmental impact caused by landfill sites. These projects help to inspire individuals and communities to connect with nature. They also provide opportunities for people to volunteer enabling them to learn new skills whilst improving their health and wellbeing.

The wildlife projects funded by LCF will help Welsh Government to meet its key environment objectives and legal obligations including:

- halting and reversing the loss of wildlife by 2020
- ensuring all of our most important, and protected, sites in Wales are in favourable condition by 2026

Without the LCF, Welsh Government will lose one of the few mechanisms it has to reach these biodiversity targets. Therefore, I urge the Welsh Government to

maintain this funding and also to increase the percentage of landfill tax that goes to funding wildlife projects to 10%.

Yours sincerely,

BLANK

Atodiad C

Geirfa

ACC – Awdurdod Cyllid Cymru

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

CThEM – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

EWG – Catalog Gwastraff Ewrop

GAAR – Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi / Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnyddio

LOI – Colli wrth Danio

SEPA – Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban

TDDS – Treth Dir y Dreth Stamp

TGT – Treth Gwarediadau Tirlenwi

TTT – Treth Trafodiadau Tir

